

## **Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 13 Mawrth 2018**

### **Yn bresennol:**

- Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog (Cadeirydd)
  - Alun Davies AC
  - Mark Drakeford AC
  - Vaughan Gething AC
  - Lesley Griffiths AC
  - Julie James AC
  - Kirsty Williams AC
  - Jeremy Miles AC
- 
- Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol
  - Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
  - Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa'r Cabinet
  - Madeline Brindley, Cynghorydd Arbennig
  - David Costa, Cynghorydd Arbennig
  - Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
  - Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
  - Huw Price, Cynghorydd Arbennig
  - Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
  - Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
  - Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
  - Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
  - Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
  - Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (eitem 4)
  - Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol (eitem 4)
  - David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu (eitem 5)
  - Richard Shearer, Pennaeth yr Uned Lywodraethu Corfforaethol (eitem 5)
  - Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol (eitem 6)

### **Ymddiheuriadau:**

- Ken Skates AC

## Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol.

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

### *Brexit*

---

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r swyddog cyfatebol yn yr Alban wedi cyflwyno nifer o atebion adeiladol yng nghyfarfod diweddar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) mewn ymgais i ddatrys y diffyg symud yn y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar ei Bil yr UE (Ymadael). Byddai'r atebion hynny'n ei wneud yn bosibl dod i gytundeb cyn i'r Bil gyrraedd y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Cytunwyd y byddai'n werth edrych ar y cynigion hyn eto. Fodd bynnag, y diwrnod blaenorol roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'w Bil, a byddai angen ystyried y rhain yn ofalus.

2.2 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet ei fod wedi cyfarfod â Phrif Weinidog yr Alban y diwrnod blaenorol, cyn Gwasanaeth y Gymanwlad yn Abaty Westminster.

2.3 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n bresennol yng Nghyfarfod Llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion y diwrnod wedyn, cyn cynnal cyfarfod dwyochrog gyda Phrif Weinidog y DU. Yn y cyfarfod dwyochrog hwnnw, yn ogystal â thrafod Bil yr UE (Ymadael), byddai'n tynnu sylw at y goblygiadau o weithredu'r tariff arfaethedig ar ddur ac alwminiwm, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywydd yr Unol Daleithiau.

### *Wythnos olaf Tymor y Cynulliad*

---

2.4 Atgoffwyd y Cabinet y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnal ddydd Mercher yr wythnos ganlynol i ymdrin â'r holl fusnes sy'n dod ger ei fron, ac y byddai'r Cyfarfod Llawn yn debygol o redeg yn hwyr ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher, tra y byddai'r Cynulliad yn ystyried camau dau, tri a phedwar o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

## Eitem 3: Busnes Cyfarfod Llawn y Llywodraeth

3.1 Nododd y Cabinet gynnwys Grid y Cyfarfodydd Llawn.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrth y Cabinet fod Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi ystyried opsiynau y bore hwnnw ar gyfer ail-drefnu busnes y Cynulliad ddydd Mercher 21 Mawrth i wneud amser i gamau 3 a 4 o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

## Eitem 4: Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

4.1 Dychwelodd y Cabinet at y cynigion i ddiwygio'r polisi mewn perthynas â diwygio Llywodraeth Leol. Yn dilyn y drafodaeth yn y Cabinet yr wythnos flaenorol, roedd Gweinidogion wedi darparu sylwadau ysgrifenedig ychwanegol ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dosbarthu nodyn yn cynnig ffordd amgen ymlaen.

4.2 Cynigiwyd Papur Gwyrdd gyda thri opsiwn penodol. Opsiwn un fyddai cyfuno'n wirfoddol o fewn patrwm 10 awdurdod, gan ddod yn gymwys i gael pwerau ychwanegol, gyda'r potensial ar gyfer cyfuno gorfodol brys lle bo angen, eto o fewn y patrwm 10 awdurdod, a hefyd gan ddod yn gymwys i gael pwerau ychwanegol. Roedd opsiwn 2 yr un fath â'r cyntaf ond roedd yn cynnig darpariaeth ar gyfer gorfodi awdurdodau sy'n dal heb gyfuno i wneud hynny mewn pryd i etholiadau 2026, ac opsiwn 3, y cynnig cyfuno gorfodol, fel y'i nodwyd ym mhapur gwreiddiol y Cabinet.

4.3 Yn ogystal â hynny, byddai papur Gwyrdd yn caniatáu i opsiynau eraill gael eu hawgrymu fel rhan o'r ddatl ehangach.

4.4 Roedd y diwygiadau a awgrymwyd yn seiliedig ar amcanion clir ar gyfer cefnogi a gwella'r gwaith sy'n digwydd ar lefel ranbarthol ar hyn o bryd. Byddai'r ffaith bod yna lai o Awdurdodau cryfach yn golygu eu bod yn gweithio ar raddfa fwy, ac y byddai cyfle felly i'r partneriaethau ranbarthol gael mwy o ddealltwriaeth ac ynni strategol, gan ei wneud yn haws cyfaddawdu a dod i gytundeb. Roedd yn bwysig nad oedd yr ymgynghoriad ar ddiwygio yn effeithio'n ddiangen ar ddatblygiadau polisi sylweddol megis yr Adolygiad Seneddol, Dinas-ranbarthau, a Chonsortia Addysg Rhanbarthol. Byddai ymrwymiad diamwys y Llywodraeth i weithio ar lefel ranbarthol yn cael ei ddisgrifio'n glir yn y Papur Gwyrdd.

4.5 Dywedodd Gweinidogion y dylai'r argymhellion yn y nodyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol fod fel a ganlyn:

- mabwysiadu polisi a fyddai'n ei gwneud yn bosibl creu llai o awdurdodau lleol mwy o faint;
- ymgynghori ar y polisi hwn drwy Bapur Gwyrdd, a gyhoeddwyd yn ystod mis Mawrth 2018, i nodi'r tri opsiwn ar gyfer symud ymlaen;
  1. Cyfuno'n wirfoddol (o fewn patrwm 10 awdurdod) a fyddai'n gymwys i gael pwerau ychwanegol; y potensial ar gyfer gorfodi cyfuno brys ar awdurdodau lle bo angen gwneud hynny (o fewn y patrwm 10 awdurdod), a fyddai hefyd yn gymwys i gael pwerau ychwanegol;
  2. Fel opsiwn 1, ond gyda darpariaeth ar gyfer gorfodi awdurdodau sy'n parhau heb gyfuno i wneud hynny mewn pryd i etholiadau 2026.
  3. Cyfuno'r 22 o gynghorau presennol yn ddeg awdurdod
- yn y Papur Gwyrdd, archwilio i sut y gellid cydnabod yn briodol yr ymrwymiad y byddai gofyn amdano i fod yn gynghorydd, drwy newid lefelau tâl cydnabyddiaeth yn yr awdurdodau sydd wedi eu diwygio
- ymgysylltu â llywodraeth leol i ganfod y cymorth y byddai ei angen i sicrhau y byddai'n bosibl mynd i'r afael â'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau newydd hyn

- galluogi llywodraeth leol i ail fuddsoddi'r arbedion a gynhyrchir gan y broses hon
- ystyried ymhellach y cynigion i roi pwerau a hyblygrwydd ychwanegol i lywodraeth leol ar ôl i'r cais gael ei gadarnhau
- parhau i weithredu polisi o weithio mewn modd systematig ar lefel ranbarthol, a pharhau i ddefnyddio'r tri rhanbarth datblygu economaidd a'r consortia addysg i weithio gyda llywodraeth leol ar raddfa fwy na'r awdurdodau cyfunedig newydd
- newidiadau eraill yn y polisi presennol a restrir ym mharagraff 52, y nodir eu manylion yn Atodiad F y papur gwreiddiol.

4.6 Cytunodd y Cabinet y dylai swyddogion symud yn eu blaen yn unol â pharagraff 4.5.

## **Eitem 5: Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)**

5.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur a oedd yn gofyn i'r Cabinet nodi cynnydd y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) a chytuno safbwynt Llywodraeth Cymru ar y ddeddfwriaeth a gynigwyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

5.2 Roedd y Cabinet wedi trafod ei ddull gweithredu mewn perthynas â'r Bil ym mis Hydref 2017 gan gytuno y dylai'r Llywodraeth gefnogi'r cynigion i newid y trefniadau ar gyfer gwneud cwynion, ac i alluogi'r Ombwdsmon i ymchwilio i driniaethau meddygol preifat. Fodd bynnag, cytunodd y Gweinidogion i beidio â newid eu safbwynt ar y materion yn ymwneud ag ymchwiliadau yr oedd yr Ombwdsmon ei hunan yn eu cychwyn a goruchwyliaeth rheoleiddwyr eraill, yn ystod cam cyntaf y broses graffu.

5.3 Roedd y Bil bellach wedi cwblhau cam 1 y broses graffu, ac roedd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadau a Deddfwriaethol wedi cyhoeddi eu hadroddiadau yr wythnos flaenorol. Roedd y ddau Bwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ond gwnaethant argymhellion i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod y Bil yn esgor ar gyfraith briodol.

5.4 Roedd cefnogaeth ar gyfer pwerau i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliadau ei hunan ar sail y manteision i ddinasyddion a'r gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach. Fodd bynnag, gosododd yr adroddiad ofyniad ar y Pwyllgor Cyllid i ddiwygio'r Bil er mwyn ei wneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori â chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill yng Nghymru cyn rhoi cychwyn ar ymchwiliad ei hunan. Byddai hyn yn cael gwared ar y perygl o waith yn gorgyffwrdd neu'n cael ei ddyblygu, neu fod dryswch yn codi ar draws sectorau, gan osgoi sefyllfa lle mae'r Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad cyn i'r awdurdodau statudol perthnasol gwblhau eu hymchwiliadau hwythau.

5.5 Hefyd roedd y Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r meini prawf i'r Ombwdsmon allu gwneud y penderfyniad ei hunan i gynnal ymchwiliad drwy weithdrefn penderfyniad cadarnhaol pe baent o'r farn nad oedd yr Ombwdsmon yn defnyddio'r pwerau yn y modd y bwriedid iddynt gael eu defnyddio.

5.6 Roedd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cefnogi pwerau i bennu'r safonau cyffredin ar gyfer gwneud cwynion, yn amodol ar y ffaith bod y Bil yn cael ei ddiwygio i barchu prosesau cwyno statudol sy'n bodoli eisoes, megis "Gweithio i Wella" yn y GIG, a phroses gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.7 Nodwyd y byddai'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn parhau i oruchwylio'r trefniadau a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y Bil hwn, a dylai'r hyn a ddysgir gael ei adlewyrchu mewn canllawiau ar gyfer pob deddfwriaeth anllywodraethol yn y dyfodol.

5.8 Nodwyd y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn ceisio sylwadau gan y Cabinet ynghylch a ddylid cefnogi'r Bil ar ddiwedd Cam 2.

5.9 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

## **Eitem 6: Bil Deddfwriaeth (Cymru): Datblygu Codau Cyfraith Cymru**

6.1 Cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Rhan Un o Fil Drafft Deddfwriaeth (Cymru). Yn benodol, dylai fod dyletswydd arno i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn barhaus, a dylai fod yn ofynnol i'r Llywodraeth baratoi rhaglen, ar gyfer pob Cynulliad, i nodi'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, yn enwedig drwy ymrwymo i brosiect tymor hir ar gyfer cydgrynhoi a chodio cyfraith ddatganoledig.

6.2 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn,  
Mawrth 2018**